Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bodffordd

**Canolfan Gymuned Bodffordd**
**Bodffordd**
**Llangefni**
**LL77 7LZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bodffordd

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Bodffordd |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Cenin Eifion |
| Person â gofal | Llinos Rowlands a Nerys Williams |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | Rhwng dwy a hanner a phedair oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Iau o 8:45yb i 11:15yb |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy’n darparu’r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma’r arolygiad cyntaf ers i’r lleoliad ailgofrestru gydag AGC |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 15/05/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cynllunio ac asesiadau'r ymarferwyr yn ymateb yn llawn i anghenion dysgu bob plentyn

A2 Cryfhau partneriaethau er mwyn gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am eu hardal leol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n hyderus ac maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn trafod eu hoff liwiau'n hyderus ac yn esbonio'n glir fel mae lindysyn electronig yn gweithio. O ganlyniad, maent yn siarad am eu gweithgareddau dyddiol yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn manteisio ar gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau da am yr hyn sy'n effeithio arnynt yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn symud rhwng yr ardaloedd chwarae mewnol ac allanol yn gwbl annibynnol, ac yn cynnal diddordeb yn eu gwaith am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu'n dda.

Maent yn ymdopi'n dda â threfniadau effeithlon y lleoliad. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol fel golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd ac ar ôl chwarae tu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn barod iawn i ofyn i'r ymarferwyr am gymorth neu am gysur, pan fo'r angen yn codi. Maent yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r ymarferwyr ac yn mwynhau ymuno yn y canu a gwrando ar storïau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r ymarferwyr ac maent yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill yn ystod amser byrbryd, ac o ganlyniad, maent yn datblygu agweddau da tuag at ei gilydd. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn briodol. Er enghraifft, maent yn rhannu'r deunyddiau crefft yn synhwyrol ac yn cymryd

eu tro wrth lenwi bwcedi o'r gasgen ddŵr. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu am garedigrwydd tuag at eraill yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn amyneddgar i'w gilydd wrth baratoi te a chacennau ac wrth ofalu am ddoliau yn y tŷ bach twt.

Mae'r plant yn weithgar ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu wrth ymchwilio yn eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt lais effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau'n bwrpasol. O ganlyniad, maent yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn archwilio wrth y bwrdd natur ac yn enwi gwahanol adar yn gywir. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau creadigol yn fwriadus wrth chwarae rôl gan gymysgu tywod mewn padell ffrio wrth wneud crempog.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gweithio'n frwd ar dasgau. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau hir wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau i ddarganfod pa allwedd sy'n agor pa glo. Maent hefyd yn dewis ystod eang o nwyddau ailgylchu yn fwriadus i adeiladu cuddfan.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn amserol. Maent wedi meithrin perthynas hyfryd â'r plant ac maent yn eu canmol yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu llwyddiannau'n frwdfrydig. Maent yn rhyngweithio â'r plant â thynerwch ac yn creu awyrgylch cartrefol a gofalgar, sy'n hybu lles a dysgu'r plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cofnodi presenoldeb plant yn brydlon ac mae ganddynt hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu cyfredol. Cynhelir driliau tân yn rheolaidd a chofnodir y canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau ymarferol yn effeithlon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu polisïau'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach a bod dŵr a llefrith ar gael iddynt. Maent yn trefnu gweithgareddau difyr yn yr awyr iach, gan gymell y plant i chwarae'n frwdfrydig er mwyn meithrin eu medrau corfforol. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd, sy'n eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn llwyddiannus. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn drwyadl ac mae'r rhain wedi'u llofnodi gan rieni a gofalwyr.

Mae’r ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda gan sicrhau amgylchedd cynhwysol. Maent yn rheoli rhyngweithiadau yn effeithiol ac yn dilyn trefniadau cadarn i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn synhwyrol. Mae’r ymarferwyr yn addasu’r cwricwlwm a threfnu profiadau dysgu a chwarae buddiol i’r plant ac yn eu cefnogi mewn ffordd sensitif a chadarnhaol.

Mae’r ymarferwyr yn trefnu profiadau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth y plant o’u treftadaeth Gymreig. Gwneir hyn trwy weithgareddau crefft, cerddoriaeth, storïau a dathliadau penodol fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae’r ymarferwyr yn dechrau ymweld â sefydliadau yn y pentref, fel y llyfrgell, i godi ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin. Maent yn addysgu’r plant yn dda am yr amgylchedd ac yn eu hannog i ailgylchu eu gwastraff bwyd a’u sbwriel.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu brwdfrydig yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio a dysgu’n effeithiol, sy’n cael effaith fwriadus ar eu dysgu a’u medrau. Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i ddarganfod tatws yn y pridd a’u cyfri yn annibynnol, ac i arllwys hylif, naill ai'n araf neu'n gyflym, o un cafn i’r llall ar y wal ddŵr.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau. Maent yn annog y plant yn fedrus i arbrofi yn eu chwarae ac i gymryd risgiau, fel creu cacennau mwd gyda phartner neu guddio mewn bocsys o wahanol feintiau. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol â'r plant wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn herio’r plant i gydbwyso cloriannau â thywod a defnyddio blociau tri-dimensiwn i adeiladu tyrau tal ac isel.

Mae’r ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n cynnwys parodrwydd i ddilyn diddordebau’r plant yn dda. Maent yn addasu eu cynllunio’n briodol i sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel arbrofi gyda phaent a chymysgu lliwiau cyn iddynt beintio aderyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant ac maent yn eu holi’n dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy roi cyfleoedd i’r plant drafod sut i lenwi blychau â hadau i fwydo’r adar ac wrth iddynt greu marciau ar y buarth gyda sialc. Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ymysg y plant. Maent yn eu herio i ddidoli a rhifo cerrig mân, darnau pren a moch coed yn yr ardal ddarganfod a rhaglennu teganau rhaglenadwy i symud o un man i’r llall.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio’u harsylwadau ar gyflawniadau’r plant yn addas, ac maent yn cyfatebu i’w hasesiadau yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn arwain yn effeithiol at gynllunio’r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i droedio'n ofalus ar lwybrau antur a gyrru beiciau o gwmpas y buarth. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel creu rhythmau gwahanol gydag offerynnau taro.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda, fel astudio hanes Santes Dwynwen. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn fuddiol trwy ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a thrafod llyfrau sy'n ymwneud ag amrywiaethau pobloedd gwahanol y byd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd deniadol a diddorol i ddatblygu medrau'r plant yn fwriadus. Maent yn sicrhau ardaloedd dysgu a chwarae diogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cyfoethogi lles, gwybodaeth a dealltwriaeth y plant ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant ddysgu y tu mewn a'r tu allan. Maent yn cwblhau asesiadau risg yn effeithlon ac maent yn amlinellu'r camau sydd i'w cymryd i leihau ac atal risgiau i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n rheolaidd iawn ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn dda.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yn hyderus, gan wneud dewisiadau doeth a dilyn eu diddordebau yn synhwyrol. Mae gan y lleoliad ardal addas i blant storio eu heitemau personol, sy'n creu ymdeimlad o berthyn.

Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau diddorol o adnoddau naturiol i feithrin medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r teganau a'r adnoddau wedi eu gosod yn bwrpasol ac o fewn cyrraedd y plant, sy'n caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau defnyddio.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder yn eu plith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau amlddiwylliannol i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach. Yn ogystal, maent yn ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau yn effeithiol i addurno'r ardal tu allan. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar wella'r ddarpariaeth a datblygu deilliannau'r plant. Mae ganddynt weledigaeth gadarn ac maent yn cydweithio'n ddyfal i hybu'r gofal a chyfoethogi dysgu'r plant. O ganlyniad, mae eu harferion cyson a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd diddorol, sy'n cynnig profiadau ysgogol i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu gofal bugeiliol a thyner i'r plant, sy'n creu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r awyrgylch ofalgar hon yn annog y plant i wneud eu gorau a

dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau ystyrlon â’r rhieni a’r gofalwyr am ddatblygiad eu plant. Defnyddiant gyfryngau cymdeithasol yn synhwyrol i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt am gyflawniadau eu plant yn y lleoliad.

Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n fwriadus fel tîm ac yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella’u haddysgu a’u harferion gofal. O ganlyniad, maent yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo. Yn ogystal, mae’r arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu’n rheolaidd.

Mae’r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol, sy’n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar wella’r cynllunio er mwyn dechrau dilyn diddordebau’r plant yn effeithlon.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â’r holl randdeiliaid i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant, fel awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. O ganlyniad, maent yn llwyddo i ddarparu gweithgareddau ysgogol yn yr ardal allanol.

Mae gan yr arweinwyr berthynas gadarn â’r ysgol. Mae hyn yn paratoi’r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn bwrpasol iawn ac maent yn rhannu’r adeilad a’r adnoddau yn fwriadus. Mae'r lleoliad yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin yn foddhaol, ac maent yn dechrau adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau lleol, fel y llyfrgell. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i blant ddysgu am eu hardal leol wedi eu sefydlu’n effeithiol.

Mae’r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau’n fwriadus. Maent yn defnyddio’r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel ategu llestri pren i’r gegin fwd ac adnoddau dilys a llenni i’r tŷ bach twt.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2023